



# Ysgol Pentreuchaf

## 41. Polisi Cymorth Cyntaf

### Personel Cymorth Cyntaf

1. Bydd yr ysgol yn sicrhau bod nifer digonol o staff wedi cael eu hyfforddi i roi cymorth cyntaf, neu rywun a benodir yn unol â chanllawiau'r sir (gweler Adran 3.1 o ffeil Anghenion Meddygol mewn Ysgolion).
2. Rhaid i staff wirfoddoli i gael eu hyfforddi i roi cymorth cyntaf gan nad oes rhwymedigaeth gytundebol.
3. Mae'n gyfrifoldeb ar y staff hynny sydd wedi eu hyfforddi mewn rhoi cymorth cyntaf i hysbysu'r pennaeth o'r dyddiad y daw eu tystysgrif i ben. Dylid rhoi rhybudd digonol fel y gellir archebu lleoedd ar gyrsiau 'gloywi'.

### Offer Cymorth Cyntaf

1. Mae'r ysgol yn darparu blwch cymorth cyntaf sydd wedi ei leoli yn ystafell athrawon.
2. Rhaid ailgyflenwi unrhyw stoc a ddefnyddir cyn gyntad ag y bo modd. Cyfrifoldeb yr un a enwir gyda gofal am gymorth cyntaf yw hysbysu'r pennaeth o'r angen i adnewyddu stoc.
3. Rhaid glanhau unrhyw orlif (hylifau corff neu eraill) cyn gynted a bo modd a gwneud hynny trwy ddilyn y 'Rhagofalon Cyffredinol' ar gyfer delio â gorlifau o'r fath – gweler adran 6.1 o'r ffeil 'Anghenion Meddygol mewn Ysgolion'.
4. Dim ond pan fydd rhieni wedi arwyddo ffurflen caniatâd, y caiff oedolyn roddi platar i blentyn.

### Hysbysu ynghylch Damweiniau

1. Rhaid cofnodi pob damwain, digwyddiadau peryglus neu salwch galwedigaethol o ganlyniad i ddigwyddiad naill ai tu mewn i'r ysgol neu ar dir yr ysgol, i unrhyw aelod o'r staff, disgybl neu ymwelydd ar y ffurflenni swyddogol a'i dychwelyd at Swyddog Iechyd a Diogelwch y cyngor o fewn 24 awr.
2. Rhaid i unrhyw aelod o'r staff, ymwelydd neu gontractwr sy'n cael ei anafu yn sgîl damwain, clefyd, digwyddiad peryglus neu dreisgar, gwblhau ffurflen swyddogol damweiniau. Rhaid i'r pennaeth arwyddo'r ffurflen hon a'i dychwelyd at Swyddog Iechyd a Diogelwch y Cyngor cyn gynted ag y bo môdd.
3. Os digwydd anaf difrifol (fel y'i diffinir yn Adran 3.2 o ffeil 'Anghenion Meddygol mewn Ysgolion') rhaid hysbysu Swyddog Iechyd a Diogelwch y cyngor yn syth.
5. Mae unrhyw aelod o staff sy'n rhoi cymorth cyntaf i ddisgybl yn gyfrifol am sicrhau yr hysbysir y rhieni.

### Adolygir: Chwefror 2017

Arwyddwyd: \_\_\_\_\_, Cadeirydd y Llywodraethwyr

Dyddiad: \_\_\_\_\_